

DATGANIAD POLISI AMGYLCHEDDOL



Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) wedi ymrwymo i sicrhau a dangos perfformiad amgylcheddol cadarn drwy reoli effaith gweithgareddau, cynnyrch a gwasanaethau ar yr amgylchedd yn unol â'r polisi ac amcanion amgylcheddol yma.

Mae CCG yn gweld bod rheolaeth amgylcheddol ac atal llygredd yn rhan bwysig iawn o'r busnes ac mae ganddo reolaeth integredig effeithiol o'i agweddau amgylcheddol ac effaith ar ei System Sicrwydd Iechyd, Diogelwch, Ansawdd (IDAA) sydd wedi ei gynllunio i fodloni gofynion safonau rhyngwladol ISO 14001.

Yn benodol, bydd CCG yn:

- Gweithredu 'Ein Hymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon Deuocsid'
- Cydymffurfio gyda phob deddfwriaeth amgylcheddol
- Sicrhau bod effaith amgylcheddol yn cael ei ystyried fel rhan o brosesau allweddol gwneud penderfyniadau busnes
- Sicrhau ein bod yn ymrwymo i fentrau amgylcheddol fel ein Strategaeth Tir yn ein Cynllun Corfforaethol a bod dangosyddion perfformiad allweddol amgylcheddol mesuradwy yn cael eu sefydlu, rheoli, monitro a'u hadolygu yn rheolaidd
- Lle bo'n briodol, datblygu ein gwasanaethau i atal llygredd a lleihau difrod i'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff o'i holl weithgareddau ac ail ddefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff lle bynnag bo'n bosib. Ein bwriad yw lleihau gwastraff mewn safleoedd tirlenwi drwy wella ffyrdd o fonitro a gwahanu gwastraff
- Trafod ac annog tenantiaid a phreswylwyr i ddylunio a gwella eu hamgylchedd drwy leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a mabwysiadu arfer da ar faterion fel arbed ynni ac atal gwastraff, ail ddefnyddio ac ailgylchu
- Datblygu a gweithredu polisi cynaliadwy ar gyfer caffael pob deunydd a gwasanaethau drwy ymrwymo i:
 - Prynu a defnyddio cynnyrch cynaliadwy
 - Defnyddio darparwyr sydd ddim yn cymryd mantais o weithwyr ac sy'n sicrhau nad ydynt yn cyfrannu at ddinistrio'r ecosystemau lleol neu'n tramgwyddo hawliau dynol
 - Lleihau'r defnydd o bapur yn fewnol drwy ddefnyddio dulliau e-anfonebu a chyfathrebu drwy e-bost er enghraifft
 - Dangos tystiolaeth o fuddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygu ar gyfer gweithwyr a staff
 - Ceisio hyrwyddo cyflogau a phrentisiaethau lleol
- Lleihau'r defnydd o ynni o adnoddau sydd ddim yn adnewyddadwy ym mhob gwasanaeth a gweithgaredd gan ddefnyddio adnoddau naturiol a chyfleustodau yn effeithlon a lleihau effaith ar yr amgylchedd wrth deithio ar gyfer y gwaith drwy:
 - Annog gweithwyr i leihau teithio ar gyfer y busnes a defnyddio cludiant cyhoeddus a rhannu cerbydau pan fo hynny'n bosib
 - Sicrhau, lle bo'n bosib, bod lleoliadau hyfforddi a chyfarfod yn cael eu dewis er mwyn lleihau'r teithio gan weithwyr ac aelodau Bwrdd a bod posib cyrraedd yno ar gludiant cyhoeddus
 - Buddsoddi mewn cyfleusterau fideo cynadleddau i leihau teithio i gyfarfodydd lle bo'n briodol

Prif Withredwr

Llofnod	Dyddiad
<i>Gwyneth Williams</i>	30.11.15

Hyrwyddwr IDAA y Bwrdd

Llofnod	Dyddiad
	16. 11. 2015

ENVIRONMENTAL POLICY STATEMENT



Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) is committed to achieving and demonstrating sound environmental performance by controlling the impacts of their activities, products and services on the environment, consistent with the this environmental policy and objectives.

CCG regards effective environmental management and pollution prevention to be of major importance to its business and has integrated effective management of its environmental aspects and impacts into its Health, Safety, Quality and Environmental (HSQE) Assurance System which has been designed to satisfy the requirements of ISO 14001.

Specifically, CCG shall:

- Implement 'Our Commitment to Reduce Carbon Dioxide Emissions'
- Comply with all environmental legislation
- Ensuring that environmental impact is considered as part of all key business decision making processes
- Ensuring that we commit to environmental initiatives such as our Land Strategy within our Corporate Plan and that measurable environmental key performance indicators are established, managed, monitored and regularly reviewed
- Where appropriate, develop our services to prevent pollution and minimise harm to the environment
- Minimise waste produces from all of its activities and re-use, recover and recycle waste wherever possible. We aim to reduce waste to landfill through improved monitoring and segregation of waste
- Engage with, and encourage tenants and residents to help design and improve their environment by minimising their impact on the environment by adopting good practice on matters such as energy saving and waste prevention, reuse and recycling
- Develop and implement a sustainable policy for the procurement of all materials and services by committing to:
 - Actively seeking to purchase and use sustainable products
 - Only using suppliers whose supply chains do not exploit workers and do not contribute to the destruction of local eco-systems or human rights abuse
 - Reducing paper usage internally and enabling it through, for example,, e-billing and email communication
 - Showing investment in training and development for our workers and staff
 - Looking to promote local employment and apprenticeships
- Minimise the use of energy from non-renewable resources in all services and operational activities, using natural resources and utilities efficiently and reducing the impact on the environment from business travel by:
 - Encouraging employees to minimise unnecessary business travel and to use public transport and share vehicles whenever feasible
 - Ensure where possible, meetings and training venues are chosen to minimise distances travelled by employees and board members and are accessible by public transport
 - Invest in video conferencing facilities to minimise travelling to meetings where appropriate

Chief Executive

Signature	Date
	30.11.15

Board HSQE Champion

Signature	Date
	18.11.2015

**Mae 'digwyddiad' yn golygu ymrwymiad i atal niwed, salwch a llygredd / 'Incident' includes a commitment to the prevention to injury, ill health and pollution